Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Y Lawnt
Surgery Hill
Rhymni
NP22 5LS

06/02/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Y Lawnt yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

## Gwella medrau darllen Cymraeg disgyblion

- Mae arweinwyr wedi gosod blaenoriaeth glir ar gyfer datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion, yn ogystal â darparu cyfleoedd buddiol iddynt gymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm.
- Mae arweinwyr wedi cydweithio â staff i sefydlu diwylliant cadarn o hybu mwynhad a diddordeb y disgyblion mewn darllen. Maent wedi trefnu bod y disgyblion yn ymweld â'r llyfrgell leol yn rheolaidd ac mae'r disgyblion hynaf yn cefnogi'r disgyblion ieuengaf fel 'cyfoedion darllen' yn llwyddiannus.
- Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth staff am ystod o ddulliau datblygu medrau darllen.
- Mae athrawon yn darparu cyfnodau darllen dyddiol sy'n sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion fireinio a gwella eu medrau darllen. Mae hyn yn cynnwys cyfuniad pwrpasol o ddarllen unigol, darllen digidol, gweithio mewn grŵp a darllen gydag aelod staff. Gyda'i gilydd, mae hyn yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddarllen i bwrpas ac ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.
- Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau gwrando ar storïau cyfarwydd. Mae ganddynt adnabyddiaeth dda o'r seiniau mae llythrennau yn eu cynrychioli ac yn

dechrau eu cyfuno'n llwyddiannus i adeiladu geiriau syml. Maent yn gyfarwydd â dewis llyfrau yn ardal ddarllen y dosbarth ac yn dechrau mwynhau amrywiol destunau.

- Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn darllen yn gynyddol hyderus yn y Gymraeg. Ar y cyfan, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o'r testun ac yn trafod cynnwys llyfrau o fewn eu profiad yn synhwyrol.
- Mae'r disgyblion hynaf yn dangos dealltwriaeth gadarn o nodweddion elfennol llyfrau ac maent yn dehongli'r testun yn briodol. Er hyn, cyfyng yw eu hymwybyddiaeth o awduron a llenorion Cymreig.

### Rhannu arfer orau yr addysgu ar draws yr ysgol

- Mae arweinwyr yn monitro yr addysgu a'r dysgu o fewn yr ysgol yn rheolaidd. Maent yn adnabod arferion da yn yr addysgu ac yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i athrawon rannu'r rhain mewn sesiynau datblygiad proffesiynol.
- Mae arweinwyr yn trefnu triawdau o staff i gydweithio ar agweddau penodol o addysgeg yn rheolaidd. Maent yn arsylwi ar ei gilydd yn addysgu yn eu tro. Maent yn adnabod arferion da ac agweddau i'w datblygu. Mae hyn yn arwain at drafodaethau buddiol o ran cryfhau addysgu ar draws yr ysgol.
- Mae arweinwyr yn defnyddio eu hamser arweinyddiaeth yn effeithiol. Maent yn elwa ar y cyfleoedd hyn er mwyn gweithio gyda athrawon unigol i fireinio eu medrau addysgu.
- Mae'r holl staff yn darparu amgylchedd dysgu cynhwysol ar draws yr ysgol sy'n cefnogi anghenion dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae cysondeb amlwg yn nhrefniant y dosbarthiadau, gydag athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio'r amgylchedd ysgogol a difyr er mwyn cefnogi'r dysgu yn llwyddiannus.
- Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r hyn a ddisgwylir ganddynt er mwyn sicrhau cysondeb yn yr addysgeg orau ar draws yr ysgol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6762309

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol